CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

SWYDD DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd:	**Glanhawr â Chyfrifoldeb**
Rhif y Swydd:	**MCC3669**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**LES009**
Gwasanaeth:	**Arlwyo a Glanhau**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Ysgol Gynradd Gymunedol Pontsenni**

mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir

Graddfa:	**Graddfa 2** **Pwynt 3** **£25,614 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£13.27 yr awr**

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Sir Powys dâl atodol Cyflog Byw Gwirioneddol yn ôl disgresiwn i weithwyr sy'n ennill llai na £13.45 yr awr.

Oriau'r Contract:	**29 awr, Parhaol**
Atebol i:	**Cymorth Glanhau Symudol**
Cyfrifoldeb dros:	**Neb**

Crynodeb

Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:

Darparu gwasanaeth rheng flaen yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Powys.
Yn gyfrifol am agor, cau a diogelwch y sefydliad o ddydd i ddydd.
Bod yn ddeiliad allwedd y tu allan i oriau ar gyfer ymateb i alwadau brys a threfnu agor – cau i Gontractwyr.
Yn gyfrifol am lanhau ardal benodol i'r fanyleb ofynnol trwy ddefnyddio'r llafur sydd ar gael yn effeithlon. Yn ogystal, efallai y bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am oruchwylio personél glanhau eraill yn dibynnu ar drefniadau lleol

Prif Gyfrifoldebau:
1. Glanhau arwynebeddau llawr trwy hwfro, caboli â pheiriant, sgrwbio â pheiriant, ysgubo / mopio gwlyb/sych.
Glanhau dodrefn, teclynnau, sinciau ac arwynebau gwaith, sgyrtin, silffoedd a siliau.

Glanhau ardaloedd toiledau, toiledau, wrinalau, basnau dwylo, drychau a pheiriannau cyflenwi.
Cael gwared ar farciau budr oddi ar waliau, drysau a ffenestri mewnol hyd at uchder y pen
Cael gwared ar we cor a llwch hyd at 2.2m.

2. Ailgyflenwi papur toiled, tywelion llaw, sebon yn ôl yr angen.
Gwagio biniau ailgylchu / gwastraff (yn dilyn trefniadau lleol ar gyfer ailgylchu) a glanhau'r biniau hyn, ailgyflenwi bagiau bin sbwriel
Symud unrhyw ailgylchu / gwastraff i'r compownd sbwriel a'i storio'n gywir yn barod i'w gasglu. Cynorthwyo â symud dodrefn yn ôl y gofyn.

3. Sicrhewch fod y safle wedi'i gloi a'i ddatgloi yn ôl yr amseroedd a nodir yn ddyddiol.
Sicrhewch fod y safle wedi'i gloi a'i ddatgloi yn ôl yr amseroedd y gofynnir amdanynt y tu allan i'r diwrnod gwaith.
Mae pob adeilad yn cael ei adael yn ddiogel gyda ffenestri, drysau ar glo a larymau wedi'u gosod.

4. Cwblhau dogfennaeth ar y safle yn ôl yr angen. Cwblhau'r holl waith papur angenrheidiol a'i anfon i'r swyddfa yn ôl yr angen. Glanhau: waliau, lloriau, ffenestri a drysau mewnol, dodrefn, ffitiadau, silffoedd ffenestri ac arwynebau gwaith.

5. Sicrhau safon dda o waith trwy:
• adrodd am eitemau sydd wedi'u difrodi/torri i'r Pennaeth Sefydliad a Chymorth Glanhau Symudol. Adrodd am ddraeniau wedi'u blocio i'r Pennaeth Sefydliad a Chymorth Glanhau Symudol. Adrodd am ffenestri wedi'u difrodi i Bennaeth y sefydliad a Chymorth Glanhau Symudol. Arsylwi a chadw at iechyd a diogelwch.
• dilyn gweithdrefnau ar gyfer defnydd cywir o gemegion
• sicrhau amgylchedd gwaith diogel

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith dan sylw, mae'r swydd rydych yn ymgeisio amdani o dan amodau Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) - Mae angen Gwiriad Manylach y DBS i'r swydd hon. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd a reoleiddir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Gofynion Iechyd a Diogelwch:

Cydweithio â'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Cadw at egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir hwy ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg:

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlynol yn eich cais.

Profiad

Dymunol

- Profiad o lanhau
- Profiad o ddiogelu adeiladau
- Profiad o ddefnyddio offer glanhau

Gwybodaeth

Hanfodol

- Dealltwriaeth o halogiad
- Iechyd a Diogelwch

Dymunol

- Dealltwriaeth o gemegion, defnydd a storio.

Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Y gallu i gwblhau hyfforddiant mewnol ar beiriannau a chemegion.

Rhinweddau Personol

Dymunol

- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da.
- Gweithiwr tîm da.

Sgiliau

Dymunol

- Y gallu i gwblhau'r holl waith papur angenrheidiol.

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Rheolwr Recriwtio: Cheryl Leighton

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 20/12/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 24/12/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 31/12/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.